SL(5)166 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2018

Cefndir a Phwrpas

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("y Ddeddf").

O ran Cymru, cyfrifir y lluosydd ardrethu annomestig ym mhob blwyddyn ariannol pan nad oes rhestrau newydd yn cael eu llunio yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 i'r Ddeddf. Mae 2018 yn flwyddyn pan nad oes rhestrau newydd yn cael eu llunio.

Mae'r fformiwla ym mharagraff 3B o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn cynnwys eitem B, sef y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan baragraff 5(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf i bennu, drwy Orchymyn, swm gwahanol ar gyfer eitem B. Os yw Gweinidogion Cymru yn arfer y pŵer hwnnw mewn perthynas â blwyddyn ariannol, rhaid i'r swm gwahanol a bennir felly fod yn is na'r mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol flaenorol yw 275.1.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu mai swm eitem B ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2018 yw 272.8.

Gweithdrefn Gadarnhaol

Gwnaed y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru cyn ei osod gerbron y Cynulliad, ond daw i rym dim ond os bydd y Cynulliad yn ei gymeradwyo drwy benderfyniad (ac mae'n rhaid i'r gymeradwyaeth gael ei rhoi cyn i'r Cynulliad gymeradwyo'r adroddiad ar gyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n cychwyn ar 1 Ebrill 2018).

Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Craffu ar rinweddau

Nodwyd y pwyntiau canlynol i gyflwyno adroddiad arnynt o o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn, sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

1. Gosodwyd y Gorchymyn gerbron y Cynulliad ar 4 Ionawr 2018; fel arfer mae gan y Pwyllgor 20 diwrnod o'r dyddiad gosod i adrodd ar offerynnau statudol.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor adrodd ar y Gorchymyn cyn 16 Ionawr 2018, (gweler y llythyr wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i Gadeirydd y Pwyllgor hwn, dyddiedig 15 Rhagfyr 2017). I bob diben, gorfododd hyn i'r Pwyllgor ystyried y Gorchymyn yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2018, dim ond 4 diwrnod ar ôl i'r Gorchymyn gael ei osod.

2. Mae'r Gorchymyn yn pennu 272.8 fel B yn y modd a esbonir yn y Nodyn Esboniadol. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad o gwbl at y rhif hwnnw yn y Memorandwm Esboniadol, sydd ddim yn ddefnyddiol o ran esbonio effaith y Gorchymyn.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

Ystyriaeth y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2018. Roedd yn barod i gyflwyno adroddiad yn unol â'r amserlen honno, gan fod y Gorchymyn yn gymharol fyr a syml.

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r rhinweddau a nodwyd.